YMDDIRIEDOLAETH IEUENCTID
HEDDLU DE CYMRU

Mae grantiau Ymddiriedolaeth Ieuenctid Heddlu De Cymru wedi cefnogi ystod eang o brosiectau gan gynnwys ysgolion coginio, sesiynau chwaraeon, clybiau ieuenctid, gwersi DJ, gweithdai barddoniaeth, adeiladu parc sglefrio a theithiau preswyl yn ystod y gwyliau.

Rhoi Sylw i Brosiect - Clwb Bechgyn a Merched Castell-nedd

Nod y Clwb Bechgyn a Merched yw darparu amrywiaeth eang o weithgareddau i'r rhai sydd rhwng 11 ac 16 oed o ardal Melyn yng Nghastell-nedd. Mae'r clwb yn helpu pobl ifanc i wella eu sgiliau cymdeithasol a gwaith tîm ac i fagu hyder ynddyn nhw eu hunain.

Derbyniodd y clwb ychydig dros £4,000 gan Ymddiriedolaeth Ieuenctid Heddlu De Cymru ac mae wedi defnyddio'r cyllid hwn i gynnal gweithgareddau fel dringo, padl-fyrddio, caiacio a mwy. Mae'r plant yn cymryd rhan yn y gweithgareddau gyda'u teuluoedd, gan sicrhau bod pawb yn mwynhau ac yn cael budd o'r clwb.

Ni fyddai sawl un o'r plant sy'n ymwneud â'r clwb erioed wedi cael y cyfle i gymryd rhan yn y mathau hyn o weithgareddau, yn bennaf oherwydd y costau a'r diffyg trafnidiaeth. Yn ogystal â rhoi'r profiadau hyn i'r plant, mae'r clwb hefyd yn eu hannog i feithrin cydberthnasau â phlant eraill na fyddent fel arfer yn eu cyfarfod heb gymorth y Clwb Bechgyn a Merched.

Rhowch arian i Ymddiriedolaeth Ieuenctid Heddlu De Cymru
JustGiving

De Cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Police and Crime Commissioner
South Wales

Mae Ymddiriedolaeth Ieuenctid Heddlu De Cymru yn Elusen Gofrestredig yng Nghymru a Lloegr, rhif. 1133057.
Cyfeiriad cofrestredig: Ymddiriedolaeth Ieuenctid Heddlu, Pencadlys Heddlu De Cymru, Heol y Bont-faen, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU